

Y Pwyllgor Archwilio a Sicrhau Risg

Adroddiad Blynyddol 2016/17

1. Cefndir.

- 1.1 Mae'r papur hwn yn adolygu perfformiad y Pwyllgor Archwilio a Sicrhau Risg (PASR) yn 2016/17, a bydd rhannau ohono'n cael eu cynnwys yn Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru am y flwyddyn a ddaeth i ben, sef 2016/17.
- 1.2 Prif rôl y Pwyllgor yw darparu cyngor annibynnol i Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru er mwyn ei gynorthwyo i gyflawni ei gyfrifoldebau fel Swyddog Cyfrifyddu. Yn ystod y flwyddyn, mae'r Pwyllgor wedi monitro'r prosesau strategol ar gyfer risg, rheolaeth a llywodraethu ynghyd â chanlyniadau archwiliadau mewnol ac allanol. Bu'r Pwyllgor yn chwarae rhan allweddol yn diffinio agweddau ar y gwaith archwilio ac yn monitro ymateb y rheolwyr i'r materion a godwyd.

2. Cylch Gorchwyl

- 2.1 Mae'r PASR yn is-bwyllgor i Banel Ymgynghorol Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru. Mae'r Panel yn cynghori'r Ombwdsmon ynghylch Cylch Gorchwyl y PASR. Cafodd y rhain eu hadolygu a'u diwygio ddiwethaf yn Rhagfyr 2016. Mae'r Cylch Gorchwyl diwygiedig a chyfredol wedi'i atodi (Atodiad A).

3. Aelodaeth

- 3.1 **Annibyniaeth:** Yn ystod y flwyddyn, mae holl gyfarfodydd y Pwyllgor wedi cael eu cadeirio gan William Richardson. Arferai fod yn ddirprwy brif weithredwr yn swyddfa'r Ombwdsmon Seneddol a Gwasanaeth lechyd ac mae ganddo brofiad sylweddol o weithredu systemau llywodraethu, a systemau gweinyddol ac ariannol yng nghyd-destun cynllun ombwdsmon. O ran aelodau annibynnol eraill y Pwyllgor, mae gan John Williams gyfoeth o brofiad o lywodraethu, a hynny fel Cyn-Gyfarwyddwr Gwasanaethau Cymdeithasol mewn Cyngor Sir a swyddi blaenorol a chyfredol ar Fyrddau a Phwyllgorau Archwilio darparwyr gwasanaethau cyhoeddus. Mae'r Pwyllgor wedi elwa hefyd ar brofiad Sharon Warnes, a oedd yn arfer bod yn Gyfarwyddwr Cynorthwyol/Uwch Reolwr Polisi a Pherfformiad yng Nghyngor Gwynedd. Gwelwyd y budd o ganlyniad i benodi aelod ychwanegol yn ystod y flwyddyn hefyd, wrth i Jonathan Morgan ymuno â'r Pwyllgor ym Mawrth 2016. Mae profiad Mr Morgan fel Aelod o'r Cynulliad am 12 mlynedd, gan gynnwys bod yn gyn-aelod o Bwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus y Cynulliad Cenedlaethol, wedi rhoi dimensiwn ychwanegol gwerthfawr i drafodaethau'r PASR.
- 3.2 **Presenoldeb Aelodau PASR:** Dyma bresenoldeb Aelodau'r Pwyllgor yn ystod y flwyddyn:

Aelod o'r Pwyllgor	Adegau y buont yn bresennol
William Richardson (Cadeirydd)	4
Jonathan Morgan	2
Sharon Warnes	4
John Williams	4

- 3.3 **Presenoldeb Arall:** Roedd archwilyr allanol (Swyddfa Archwilio Cymru) ac archwilyr mewnol (Deloitte) wedi mynychu'r cyfarfodydd yn rheolaidd hefyd, yn ogystal ag aelodau perthnasol o Dîm Rheoli OGCC.
- 3.4 **Gwrthdaro rhwng buddiannau:** Fel aelod o'r Panel Ymgynghorol, mae pob aelod o'r Pwyllgor yn llenwi datganiad blynyddol o fuddiannau. Defnyddir yr wybodaeth i lunio Cofrestr Buddiannau, sydd ar gael i'w archwilio gan aelodau o'r cyhoedd sy'n gwneud cais. Hefyd, roedd yr eitem gyntaf ar agenda unrhyw gyfarfod o'r PASR yn gyfle i ddatgan unrhyw fuddiant a oedd yn benodol i eitemau ar agenda'r cyfarfod hwnnw.
- 3.5 **Cyfnod penodiad:** Mae pob penodiad yn para gyfnod penodol ac ymdrinnir â hw mewn llythyrau penodi.

4. Hyfforddiant

- 4.1 Gwahoddir Aelodau'r Pwyllgor i asesu eu hanghenion hyfforddi yn flynyddol. Darperir rhaglen gynefino ar gyfer holl aelodau'r Panel Ymgynghorol, sy'n cynnwys cynefino'r Pwyllgor Archwilio a Sicrhau Risg fel y bo'n briodol. Yn ystod y flwyddyn, aeth William Richardson i weithdy o gadeiryddion Pwyllgorau Archwilio a Sicrhau Risg a hwyluswyd gan Swyddfa Archwilio Cymru. Roedd hyn yn ddefnyddiol ar gyfer rhwydweithio a rhannu arferion da a gwybodaeth.
- 4.2 Hefyd, trefnwyd i Sharon Warnes a Jonathan Morgan fynychu cwrs Pwyllgor Archwilio Effeithiol gan CIPFA yn ystod 2016/17. Yn anffodus, canslodd CIPFA y cwrs a drefnwyd. Trefnir i fynd pan fydd cwrs yn cael ei aildrefnu gan CIPFA y flwyddyn nesaf.
- 4.3 Fel aelodau o'r Panel Ymgynghorol, mae aelodau'r PASR hefyd wedi cael hyfforddiant yn ystod y flwyddyn ar ddiogelwch gwybodaeth a diogelu data.

5. Cyfarfodydd a Busnes y Pwyllgor

- 5.1 Mae'r Cadeirydd yn adolygu'r agenda a'r papurau atodol sydd i gael eu trafod, cyn eu hanfon at aelodau'r Pwyllgor a phobl eraill sy'n mynychu.
- 5.2 Mae'r Pwyllgor yn gosod rhaglen waith flynyddol ar ei gyfer ei hun (gweler Atodiad B). Cynhaliwyd pedwar cyfarfod o'r Pwyllgor yn ystod y flwyddyn. Ymhob cyfarfod, mae'r Pwyllgor wedi cael nifer o eitemau sefydlog ar yr agenda.

- 5.3 Roedd hyn yn cynnwys adroddiadau'n ymdrin â datganiadau o unrhyw dwyll neu golledion gan gynnwys colli data. O ran colli data ac er mwyn eglurder, mae OGCC yn darparu tabl yn rhestru'r mathau o ddigwyddiadau, a'u dyddiadau, a chanlyniad ymchwiliad OGCC, gan gynnwys atgyfeirio at y Comisiynydd Gwybodaeth pan fo'n briodol. Yn ôl ei arfer, mae OGCC wedi dilyn y Broses Digwyddiadau a Hysbysu Data yn ystod y flwyddyn, gan ganfod a chynnal camau pellach angenrheidiol i gywiro unrhyw ddiffygion mewn prosesau neu TG. Oherwydd natur yr wybodaeth, a'r effaith ar wrthrych y data, mae OGCC wedi rhoi gwybod i'r Comisiynydd Gwybodaeth am un digwyddiad yn ystod 2016/17. Ond ar ôl ymchwiliad pellach, ac ar sail y prosesau a oedd yn bodoli ar y pryd a'r camau a gymerwyd wedyn, roedd y ICO yn derbyn mai camgymeriad dynol oedd hyn a phenderfynu nad oedd angen cymryd camau pellach.
- 5.4 Roedd y Pwyllgor yn cael adroddiadau hefyd ar unrhyw faterion priodol a oedd yn dod o fewn ei gylch gorchwyl. Roedd hyn yn cynnwys: cyfrifon naw mis, cynlluniau archwilio mewnol, y newyddion diweddaraf am y cynllun parhad busnes; a materion llywodraethu corfforaethol ac ariannol perthnasol a gyhoeddwyd gan Drysorlys EM. Roedd hefyd yn adolygu'r cyfrifon blynyddol drafft ac adroddiad yr archwilydd, gan gynghori'r Ombwdsmon yn briodol cyn i'r cyfrifon gael eu llofnodi.
- 5.5 Eitem sefydlog arall yw rheoli risg a'r gofrestr risgiau. Dyma bwnc a gafodd sylw arbennig yn ystod y flwyddyn. Cafodd gweithdy ar y bwnc ei hwyluso gan Deloitte (a lle roedd holl aelodau'r Panel Ymgynghorol yn cymryd rhan) yng Ngorffennaf 2016. O ganlyniad i hynny, gwnaethpwyd cynnig ar gyfer dull newydd o fewn swyddfa OGCC, ynghyd ag adroddiad 'fformat llai' ar gyfer cyfarfodydd PASR yn y dyfodol. Byddai'r gwaith ar ddatblygu'r fformat newydd yn parhau i'r flwyddyn weithredol nesaf, sef 2017/18.
- 5.6 Ymhob cyfarfod, cafodd y Pwyllgor gopi er gwybodaeth o'r adroddiad diweddaraf ar Fonitro'r Gyllideb y bu'r Tîm Rheoli yn ei ystyried. Bwriad hyn yw rhoi sicrwydd i'r Pwyllgor fod craffu rheolaidd yn digwydd yn y swyddfa ar y sefyllfa ariannol.
- 5.7 Rhoddodd y Pwyllgor gyngor i'r Ombwdsmon er mwyn sicrhau bod Datganiad Llywodraethu Blynyddol 2016/17 yn cynnwys gwybodaeth briodol ac yn cydymffurfio â'r arferion gorau.
- 5.8 Hefyd, yn ystod y flwyddyn bu'r Pwyllgor yn ystyried Polisi drafft ar Chwythu'r Chwiban, a gafodd ei anfon allan i'r holl staff ac undebau llafur wedi hynny i ddiben ymgynghori. Cafodd y polisi diwygiedig hwnnw ei gymeradwyo a'i gyflwyno yn Rhagfyr 2016.
- 5.9 Bu'r Pwyllgor yn ystyried y polisi drafft ar Barhad Busnes – Aseiad Effaith ar Fusnes yn ystod y flwyddyn.

6. Archwilio Mewnol ac Allanol

- 6.1 Yn dilyn proses dendro, cafodd Deloitte y contract archwilio mewnol yn Chwefror 2016 am y tair blynedd ariannol nesaf. Ym Mawrth 2016, cytunodd y Pwyllgor ar y cynllun archwilio tair blynedd 2016/17 i 2018/19. Felly, gwaith archwilio mewnol 2016/17 oedd y flwyddyn gyntaf o'r cynllun tair blynedd.

- 6.2 Cyfeiriodd eu hadroddiadau at y fframwaith rheoli mewnol boddhaol yn y sefydliad ac roeddent yn cynnwys argymhellion ar gyfer gwella lle roedd angen. Nodwyd yr asesiadau cyffredinol canlynol yn eu Hadroddiad Blynyddol Archwilio Mewnol ar Systemau Ariannol 2016/17:

Rheoli'r Gyllideb	sicrwydd SYLWEDDOL
Cyfriflyfr Cyffredinol	sicrwydd SYLWEDDOL
Asedau Sefydlog	sicrwydd CYMEDROL

O ran y sicrwydd 'cymedrol' ar gyfer asedau sefydlog, roedd hyn wedi digwydd oherwydd nad oedd modd gwirio un ased o sampl o 10 ased a ddewiswyd ar hap o'r gofrestr asedau sefydlog. Yr ased oedd '24 bysellfwrdd a llygoden'. Roedd yr ased dan sylw yn un o lawer o "asedau etifeddol" a ychwanegwyd at y system Sage yn 2006 ac nid oedd iddynt DDIM gwerth llyfr. Nid asedau sefydlog gwirioneddol oeddent oherwydd roeddent islaw lefel gyfalafu OGCC, sef £1,000, a chawsant eu hychwanegu at y gofrestr asedau sefydlog er mwyn eu cofnodi yn rhywle. Ailedrychwyd ar y dull hwnnw a dim ond asedau cyfalaf gwirioneddol sy'n cael eu hychwanegu ar y gofrestr asedau sefydlog erbyn hyn. Bydd yr asedau etifeddol yn cael eu tynnu fel rhan o weithdrefnau diwedd blwyddyn 2016/17 ac nid ydynt yn cael dim effaith ar werth y fantolen. Nid yw OGCC o'r un farn â'r archwilwyr, sef fod y mater yn un o flaenoriaeth ganolig, oherwydd nad oedd yr ased dan sylw yn ased sefydlog gwirioneddol yn y lle cyntaf.

Roedd y rhaglen archwilio dreiglol a oedd yn cynnwys elfennau eraill gwaith a mesurau rheoli'r sefydliad hefyd yn cyfeirio at y fframwaith rheoli mewnol boddhaol yn y sefydliad, ac roeddent yn cynnwys argymhellion ar gyfer gwella lle roedd angen. Roedd yr asesiadau cyffredinol fel a ganlyn:

Llywodraethu Corfforaethol	sicrwydd SYLWEDDOL
Delio â chwynion	sicrwydd
SYLWEDDOL	
Rheoli Perfformiad Staff	sicrwydd SYLWEDDOL

- 6.3 Nodwyd yn Adroddiad Blynyddol yr archwilwyr mewnol ar gyfer 2016/17: Yn seiliedig ar y gwaith rydym wedi'i wneud yn ystod y flwyddyn, rydym yn gallu dod i'r casgliad fod gan Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru system rheolaeth fewnol gadarn, a ddylai roi **sicrwydd sylweddol** o ran cyflawni amcanion Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru. Mae'r canfyddiadau hyn yn rhoi sicrwydd bod y trefniadau ar waith yn gwneud y swyddfa'n llai agored i risg. Nododd y Pwyllgor drylwyredd y gwaith archwilio, ymarferoldeb yr argymhellion ac ymateb agored a chadarnhaol y rheolwyr i'r argymhellion a wnaed.
- 6.4 Rhaid i rôl archwilio mewnol, fel sy'n ofynnol dan Ddeddf Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus (Cymru) 2005, gael ei chyflawni gan Archwilydd Cyffredinol Cymru a chafodd y gwaith hwnnw, gyda chytundeb yr Ombwdsmon, ei gyflawni yn ystod y flwyddyn gan Swyddfa Archwilio Cymru eu hunain. Bu'r Pwyllgor yn ystyried Cyfrifon Blynyddol 2015/16, ynghyd â'r Adroddiad ar yr Archwiliad Allanol o'r Datganiadau Ariannol a Llythyr y Rheolwyr.
- 6.5 Rhoddwyd barn ddiamod ar Gyfrifon 2015/16 ar 21 Gorffennaf 2016.

- 6.6 Wrth baratoi Cyfrifon Blynyddol 2016/17, ystyriwyd hefyd Ddatganiad Llywodraethu drafft y swyddfa ar gyfer y flwyddyn.
- 6.7 Mae gan yr Archwilwyr Mewnol ac Allanol yr hawl, os ystyrir hynny'n briodol, i godi unrhyw fater drwy bolisi mynediad agored at y Cadeirydd, a thrwy'r hawl honno i ddwyn unrhyw fater i sylw'r Pwyllgor. Sicrhaodd y Pwyllgor, drwy adolygu rhaglenni'r Archwilwyr Mewnol ac Allanol, eu bod yn cydweithredu'n effeithiol â'i gilydd. Mae ansawdd y gwaith archwilio a safon gwaith y Pwyllgor wedi cael ei werthuso yn ystod y flwyddyn drwy ystyried yr adroddiadau archwilio a'r argymhellion a'r ddeialog mewn cyfarfodydd rhwng Aelodau'r Pwyllgor a'r Archwilwyr.
- 6.8 I sicrhau y gellir codi materion priodol yn gyfrinachol, mae Cadeirydd y Pwyllgor yn cynnal cyfarfod bob blwyddyn â chynrychiolwyr yr Archwilwyr Allanol a Mewnol. Cynhaliwyd cyfarfod o'r fath ar 15 Mawrth 2017.

7. Prosesau Monitro

Ym mhob cyfarfod yn ystod 2016/17, cafodd y Pwyllgor adroddiad ar y cynnydd sydd wedi'i wneud o ran gweithredu ar argymhellion yr Archwilwyr Mewnol ac Allanol. Roedd aelodau'r pwyllgor wedi'u bodloni bod bron pob un o'r argymhellion a wnaed wedi cael eu gweithredu. Pan nad yw'r rhain wedi cael eu gweithredu'n llwyr, rhoddir esboniadau ac mae'r rhain wedi cael eu hystyried yn ofalus gan y Pwyllgor. (Roedd argymhellion na chafodd eu gweithredu'n llwyr yn ymwneud yn bennaf â gwelliannau i weithrediad systemau TG a threfniadau adfer mewn argyfwng na ellir ymdrin â nhw mewn ffordd gost-effeithiol dan y systemau TG cyfredol. Bydd gofynion sy'n adlewyrchu argymhellion archwilio mewnol yn cael eu cynnwys mewn manylebau systemau yn y dyfodol).

8. Adolygiad Blynyddol

8.1 Fel rhan o'i adolygiad o'r flwyddyn, yn ogystal ag ymarferiad hunanasesu'r Aelodau unigol, mae'r PASR yn ceisio sicrhau ei fod yn parhau i gydymffurfio â'r Egwyddorion Arferion Da sydd yn Llawlyfr Pwyllgorau Archwilio Trysorlys EM. I helpu'r Pwyllgor benderfynu a oedd yn cydymffurfio ag ymarfer da, gwahoddwyd pob aelod i lenwi "Rhestr Wirio Hunanasesiad Pwyllgorau Archwilio" y Swyddfa Archwilio Genedlaethol. Mae'r sylwadau a gafwyd o'r ddau ymarferiad wedi cael eu hystyried wrth baratoi'r Adroddiad Blynyddol hwn.

8.2 Dyma rai sylwadau penodol gan Aelodau'r Pwyllgor:

- mae'r Pwyllgor wedi elwa ar gael ei gryfhau drwy ychwanegu trydydd aelod annibynnol; mae aelodau'r PASR wedi parhau i weithio'n dda gyda'i gilydd, gyda'r gwahanol sgiliau'n gwasanaethu'r OGCC yn dda.
- roedd y Pwyllgor wedi cyfrannu'n llawn ac effeithiol mewn nifer o ffyrdd, yn enwedig o ran adolygu'r gwaith rheoli risg ac archwaeth OGCC am risg, ynghyd â'r newid canlyniadol yn y dull yn swyddfa OGCC
- roedd darparu sicrwydd i OGCC am y Datganiad Llywodraethu yn flaenoriaeth bwysig

- bod PASR wedi parhau'n gyffredinol i gyflawni ei ddyletswyddau'n effeithiol ac wedi parhau i gydymffurfio â'r safonau a'r arferion gorau sy'n briodol i'r Pwyllgor.
- byddai angen ystyried y trefniadau trosiannol/trosglwyddo gwybodaeth pan ddaw cyfnod Cadeirydd presennol y PASR i ben ym mis Medi 20167.

8.3 Yn ogystal â'r ymarferiad hunanasesu a gynhaliwyd gan aelodau'r Pwyllgor, a chwblhau rhestr wirio'r Swyddfa Archwilio Genedlaethol, gofynnwyd i gynrychiolwyr archwilio mewnol ac allanol, ac aelodau o staff OGCC sy'n mynychu cyfarfodydd PASR yn rheolaidd, i lenwi holiadur ac ateb cwestiynau am berfformiad a chyfraniad y Pwyllgor. Roedd y cwestiynau'n ymdrin â chyfathrebu rhwng y PASR a'r sefydliad, pa mor effeithiol yw'r cyfarfodydd, gwybodaeth a phrofiad y Pwyllgor, a gonestrwydd ac ymddiriedaeth, a ph'un a yw'r Pwyllgor yn darparu her adeiladol ai peidio. Roedd pob ymateb yn gadarnhaol neu'n gadarnhaol iawn ynglŷn â chyfraniad y Pwyllgor.

9. Asesiad Cyffredinol

- 9.1 Wrth ddatblygu ei Adroddiad Blynyddol, mae'r Pwyllgor wedi'i fodloni ei fod wedi cael y sicrwydd cynhwysfawr sydd ei angen arno i ddiwallu ei anghenion a bod yr wybodaeth a gafodd yn ystod y flwyddyn wedi bod yn ddibynadwy ac yn ddigonol er mwyn cyflawni ei ddyletswyddau. Mae wedi'i fodloni hefyd fod y sicrwydd yn dangos bod yr amgylchedd rheolaeth fewnol cyffredinol, adroddiadau ariannol, rheoli risg ac ansawdd y gwaith Archwilio Allanol a Mewnol yn foddhaol.
- 9.2 Felly, mae'r Pwyllgor wedi gallu darparu sicrwydd i roi cefnogaeth effeithiol i Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru i gydymffurfio â'i gyfrifoldebau fel Swyddog Cyfrifyddu yn enwedig wrth gynorthwyo i baratoi'r Datganiadau Ariannol (sy'n ymgorffori'r Datganiad Llywodraethu).
- 9.3 Wrth gynnal adolygiad o'i berfformiad ei hun, mae'r Pwyllgor Archwilio a Sicrhau Risg yn ystyried ei fod wedi gweithredu'n effeithiol ac yn unol ag arferion da.

10. Diolchiadau

- 10.1 Mae'r Cadeirydd yn ddiolchgar i John Williams, Sharon Warnes a Jonathan Morgan fel aelodau o'r Pwyllgor am eu gwaith, eu cyfraniad, eu cymorth a'u cefnogaeth. Mae'r un mor ddiolchgar am gyfraniad yr Ombwdsmon, Nick Bennett; ysgrifenyddiaeth y Pwyllgor; ac aelodau o Dîm Rheoli Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru. Mae hefyd yn ddiolchgar i Ann-Marie Harkin o Swyddfa Archwilio Cymru, ac Ian Howse a'i dîm yn Deloitte. Bu eu cymorth a'u cyngor yn gefnogol iawn yn ystod y flwyddyn.

<p>Atodiad A - Cylch Gorchwyl y Pwyllgor Archwilio a Sicrhau Risg Atodiad B - Rhaglen Waith 2016/17.</p>
--

Cylch Gorchwyl y Pwyllgor Archwilio a Sicrhau Risg

Mae'r Ombwdsmon wedi sefydlu Panel Ymgynghorol, a'i brif rôl yw darparu cefnogaeth a chynghor wrth roi arweiniad a llywodraethu da i'r swyddfa. Mae'r Pwyllgor Archwilio a Sicrhau Risg yn is-bwyllgor o'r Panel Ymgynghorol, gyda rôl benodol i gefnogi'r Ombwdsmon o ran ei gyfrifoldebau am faterion perthnasol i reoli risg a llywodraethu, drwy adolygu ehangder y sicrwydd wrth ddiwallu anghenion sicrwydd y Swyddog Cyfrifyddu ac adolygu dibynadwyedd ac integriti'r sicrwydd hwn.

Aelodaeth

Dyma aelodau'r Pwyllgor Archwilio a Risg:

- Cadeirydd allanol annibynnol
- tri aelod allanol annibynnol

gyda'r Rheolwr Polisi a Chyfathrebu yn Ysgrifennydd i'r Pwyllgor.

Adrodd

- Bydd pob Pwyllgor Archwilio a Sicrhau Risg yn cael ei gofnodi mewn cofnodion a fydd yn cael eu cymeradwyo yn y cyfarfod nesaf.
- Bydd y Pwyllgor Archwilio a Sicrhau Risg yn rhoi Adroddiad Blynyddol i'r Swyddog Cyfrifyddu, wedi'i amseru i ategu'r gwaith o lunio'r cyfrifon a'r Datganiad Llywodraethu terfynol, gan grynhoi ei gasgliadau o'r gwaith a wnaed yn ystod y flwyddyn.

Cyfrifoldebau

Bydd y Pwyllgor Archwilio a Sicrhau Risg yn rhoi cyngor i'r Swyddog Cyfrifyddu ynglŷn â'r canlynol:

- y prosesau strategol ar gyfer risg, rheolaeth a llywodraethu a'r Datganiad Llywodraethu Blynyddol;
- y cynlluniau Strategol a Busnes drafft ar sail cydymffurfiaeth, cynildeb, effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd i gydnabod y gofyniad gyda'r archwiliad blynyddol i roi cyfrif am ddefnyddio cronfeydd;

- polisiau cyfrifyddu, cyfrifon, gan gynnwys y broses ar gyfer adolygu'r cyfrifon cyn eu cyflwyno i'w harchwilio, lefelau'r gwallau a nodwyd, a llythyr sylwadau'r rheolwyr at yr archwilywyr allanol;
- y gweithgarwch arfaethedig a chanlyniadau'r archwiliad mewnol ac allanol;
- pa mor ddigonol yw ymateb y rheolwyr i faterion a ganfuwyd gan weithgarwch archwilio, gan gynnwys llythyr y rheolwyr am archwilio allanol;
- sicrwydd sy'n ymwneud â gofynion llywodraethu corfforaethol y sefydliad;
- (pan fo'n briodol) cynigion ar gyfer tendro am wasanaethau Archwilio Mewnol neu ar gyfer prynu gwasanaethau gan gontractwyr sy'n darparu gwasanaethau archwilio;
- polisiau gwrth-dwyll, prosesau chwythu'r chwiban, a threfniadau ar gyfer ymchwiliadau arbennig.
- hefyd, bydd y Pwyllgor Archwilio a Sicrhau Risg yn adolygu ei effeithiolrwydd ei hun yn rheolaidd, ac yn cyflwyno adroddiad i'r Panel Ymgynghorol.

Hawliau

Caiff y Pwyllgor Archwilio a Sicrhau Risg wneud y canlynol:

- cyfethol aelodau ychwanegol am gyfnod nad yw'n fwy na blwyddyn, a hynny er mwyn darparu sgiliau, gwybodaeth a phrofiad arbenigol;
- caffael cyngor ad-hoc arbenigol, yn amodol ar fod o fewn y gyllideb.

Mynediad

- Bydd gan gynrychiolydd yr Archwiliad Mewnol a chynrychiolydd yr Archwiliad Allanol fynediad rhydd a chyfrinachol at Gadeirydd y Pwyllgor Archwilio a Sicrhau Risg.

Cyfarfodydd

- Bydd y Pwyllgor Archwilio a Sicrhau Risg yn cwrdd o leiaf bedair gwaith y flwyddyn. Caiff Cadeirydd y Pwyllgor Archwilio a Sicrhau Ansawdd neu'r Ombwdsmon alw cyfarfodydd ychwanegol, fel sydd angen yn eu barn nhw.
- Bydd gofyn bod o leiaf ddau aelod annibynnol o'r Pwyllgor Archwilio a Sicrhau Risg yn bresennol er mwyn i'r cyfarfod gael ei ystyried yn gyfarfod cworwm.
- Os na fydd Cadeirydd y Pwyllgor Archwilio a Sicrhau Ansawdd yn gallu dod i gyfarfod, bydd un o'r aelodau annibynnol yn cymryd y gadair.
- Yn mynychu cyfarfodydd y Pwyllgor Archwilio a Sicrhau Ansawdd fel arfer bydd yr Ombwdsmon, Prif Swyddog Gweithredu a Chyfarwyddwr Ymchwiliadau, Rheolwr Gwasanaethau Corfforaethol, yr Ymgynghorydd Ariannol, cynrychiolwyr o Archwilio Mewnol, a chynrychiolwyr o Archwilio Allanol.
- Caiff y Pwyllgor Archwilio a Sicrhau Risg ofyn i unrhyw swyddog arall o'r swyddfa i fynychu er mwyn ei gynorthwyo gyda'i drafodaethau ynglŷn ag unrhyw fater.
- Caiff y Pwyllgor Archwilio a Sicrhau Risg wahodd pobl neu gyrff eraill i fynychu cyfarfodydd er mwyn rhoi cyngor proffesiynol neu wybodaeth am unrhyw fater y mae'r Pwyllgor yn ystyried ei fod yn berthnasol ar gyfer cyflawni ei swyddogaethau'n briodol.

- Caiff y Pwyllgor Archwilio a Sicrhau Risg ofyn i unrhyw un, neu bawb, sy'n arfer mynychu'r cyfarfod ond nad ydynt yn aelodau, adael yr ystafell er mwyn hwyluso trafodaeth agored ac onest ar faterion penodol.

Gofynion o ran gwybodaeth

Ar gyfer pob cyfarfod, rhoddir y canlynol i'r Pwyllgor Archwilio a Sicrhau Risg:

- adroddiad sy'n crynhoi unrhyw newidiadau sylweddol i Gofrestr Risg y sefydliad,
 - ynghyd â rhestr o eitemau risg Uchel a Chanolig;
- adroddiad cynnydd gan gynrychiolydd Archwilio Mewnol yn crynhoi'r canlynol:
 - y gwaith a gyflawnwyd (a'i gymharu â'r gwaith a fwriadwyd);
 - materion allweddol sy'n deillio o waith Archwilio Mewnol;
 - ymateb y rheolwyr i'r argymhellion archwilio;
 - newidiadau i'r Cynllun Cyfnodol;
 - unrhyw faterion yn ymwneud ag adnoddau sy'n effeithio ar y gwaith o gyflawni amcanion Archwilio Mewnol.
- adroddiad cynnydd gan gynrychiolydd o'r Archwiliad Mewnol yn crynhoi'r gwaith
 - a wnaed a'r canfyddiadau sy'n dod i'r amlwg;
- adroddiad neu adroddiadau am unrhyw achosion arwyddocaol o dorri fframwaith rheoli'r sefydliad, twyll ariannol, colledion, gwaredu asedau, dileu, caffael y tu allan i'r trefniadau arferol ac unrhyw faterion eraill y mae'r Pwyllgor yn gofyn am gael eu hysbysu amdanynt ymhob un o'i gyfarfodydd.

Pan fo'n briodol, rhoddir y canlynol i'r Pwyllgor hefyd:

- cynigion ar gyfer Cylch Gorchwyl yr Archwiliad Mewnol;
- y Strategaeth Archwilio Mewnol;
- copi o'r holl archwiliadau mewnol a gyhoeddwyd;
- Barn ac Adroddiad Blynyddol yr Archwiliad Mewnol;
- adroddiadau sicrhau ansawdd ar y swyddogaeth Archwilio Mewnol ac Allanol;
- cyfrifon drafft y sefydliad;
- y Datganiad Llywodraethu Blynyddol drafft;
- adroddiad ar unrhyw newidiadau i bolisiâu cyfrifyddu;
- Adroddiad ISA 260 Archwilio Mewnol a llythyr y rheolwyr mewn perthynas â hynny;
- adroddiad (llafar) ar y prosesu cydweithio rhwng gwaith Archwilio Mewnol ac Allanol.
- cynigion ar gyfer tendro ar gyfer gwasanaethau Archwilio Mewnol neu Allanol neu ar gyfer prynu gwasanaethau sy'n darparu gwasanaethau archwilio;
- unrhyw newidiadau i'r polisi a'r strategaeth rheoli risg;
- unrhyw newidiadau i bolisiâu gwrth-dwyll, prosesau chwythu'r chwiban, a threfniadau ar gyfer ymchwiliadau arbennig;
- cynigion ar gyfer newidiadau sylweddol i unrhyw elfennau o'r fframwaith rheoli;

[Fel y cytunwyd gan y Panel Ymgynghorol ar 7 Rhagfyr 2016.]

Atodiad B

Rhaglen Waith 2016/17 Pwyllgor Archwilio a Sicrhau Risg (PASR)

Dyddiad	Eitem
[Mai 2016]	Y tu allan i gylch y Pwyllgor, mae Aelodau'r PASR yn cael Cyfrifon Drafft (cyn archwiliad allanol).
13 Gorffennaf 2016	Cyfrifon Drafft Terfynol 2015/16 (gan gynnwys Adroddiad Blynyddol y PASR) Datganiad Llywodraethu (gan gynnwys Adroddiad Terfynol Diwedd Blwyddyn Archwilio Mewnol) Adroddiadau Archwilio Allanol Monitro'r Gyllideb Y Gofrestr Risgiau Adroddiad Archwilio Mewnol (os o gwbl) Argymhellion Archwilio Mewnol/Allanol – adroddiad cynnydd Materion yn aros ers cyfarfodydd blaenorol y PASR Materion y mae angen hysbysu'r PASR amdanynt Gofynion Hyfforddi Aelodau'r PASR
15 Medi 2016	Llythyr y Rheolwyr mewn perthynas ag Archwilio Allanol Ymateb arfaethedig yr Ombwdsmon i Lythyr y Rheolwyr mewn perthynas ag Archwilio Mewnol Monitro'r Gyllideb Y Gofrestr Risgiau Adroddiad Archwilio Mewnol (os o gwbl) Archwilio Mewnol – adroddiad ynghylch cynnydd o gymharu â'r cynllun archwilio Argymhellion Archwilio Mewnol/Allanol – adroddiad cynnydd Materion yn aros ers cyfarfodydd blaenorol y PASR Materion y mae angen hysbysu'r PASR amdanynt
7 Rhagfyr 2016	Adolygu Cylch Gorchwyl PASR Adolygiad o Bolisiau Ariannol Alldro Tebygol 2016/17 Monitro'r Gyllideb Y Gofrestr Risgiau Argymhellion Archwilio Mewnol/Allanol – adroddiad cynnydd Adroddiad Archwilio Mewnol (os o gwbl) Archwilio Mewnol – adroddiad ynghylch cynnydd o gymharu â'r cynllun archwilio Materion y mae angen hysbysu'r PASR amdanynt Materion yn aros ers cyfarfodydd blaenorol y PASR
15 Mawrth 2017	Datganiad Llywodraethu Drafft (Adroddiad Terfynol Diwedd Blwyddyn Archwilio Mewnol) Adolygiad perfformiad PASR 2016/17 ac Adroddiad Blynyddol Drafft y PASR Cyfrifon Terfynol - Datganiad Sefyllfa Naw Mis Archwilio Allanol – Crynodeb o Strategaeth Archwilio 2016/17 Cynllun Blynyddol yr Archwilwyr Mewnol Monitro'r Gyllideb Y Gofrestr Risgiau Adroddiad Archwilio Mewnol (os o gwbl) Argymhellion Mewnol/Allanol – adroddiad cynnydd Materion yn aros ers cyfarfodydd blaenorol y PASR Adroddiad blynyddol/adroddiad diwedd blwyddyn Archwilio Mewnol Materion y mae angen hysbysu'r PASR amdanynt
